# Ymdopi Pan fo Amharu Sylweddol ar Fusnes

## Cyngor ymarferol

CARDIFF
CAERDYDD

## Beth yw parhad busnes?

Mae rheolaeth parhad busnes yn adnabod risgiau i fusnes ac yn gosod fframwaith i fusnes ei ddilyn yn ystod digwyddiad, sy'n amddiffyn y busnes rhag amhariadau gormodol.

## Pam mae parhad busnes yn bwysig?

Mae sicrhau bod parhad busnes yn rhan o'r ffordd rydych yn rhedeg eich busnes yn eich helpu i baratoi at gynnig 'busnes fel arfer' yn yr amser cyflymaf posibl, yn hytrach na chael eich oedi gan effeithiau argyfwng. Bydd bod â chynllun a brofwyd ar waith yn helpu i amddiffyn eich busnes rhag effeithiau trychineb naturiol neu ddynol, megis:

- Tân
- Cyhoeddusrwydd niweidiol
- Colli staff allweddol
- Colli neu fethu cael mynediad i'ch adeilad
- Llifogydd a thywydd garw
- Cyfrifiaduron yn methu neu golli data
- Lladrad
- Bygythiad o fomiau
- Methiant technegol neu amgylcheddol
- Colli pŵer
- Llygru neu halogi cynnyrch
- Methiant cyflenwyr hanfodol

Gallai unrhyw un o'r rhain arwain at unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- Eich busnes yn methu'n llwyr
- Colli incwm
- Colli enw da neu golli cwsmeriaid
- Cosbau ariannol, cyfreithiol a rheoliadol
- Materion Adnoddau Dynol
- Effaith ar daliadau yswiriant

Gallai eich cynllun parhad busnes gynnwys:

- Symud i ran arall o'r swyddfa neu'r adeilad
- Symud i leoliad arall
- Staff yn ildio eu gweithleoedd
- Gweithio gartref

Felly, mae yr un mor bwysig bod cwmnïau bach, yn ogystal â chorfforaethau mawr, yn sicrhau, os digwydd bod amharu ar fusnes arferol, y caiff gwasanaethau hanfodol eu cynnal i lefel dderbyniol leiaf a bod cyflogeion yn deall yr hyn a ddisgwylir ohonynt. Mae hyn i sicrhau bod yn busnes yn goroesi'r aflonyddwch ac y eir 'yn ôl i normalrwydd' yn drefnus ac yn effeithiol.

## Beth yw'r broses parhad busnes?

Cysyniadau allweddol y broses parhad busnes yw:

- Deall eich busnes a'ch amcanion busnes allweddol
- Nodi gweithgareddau allweddol a staff sy'n gweithio yn y meysydd hynny
- Adnabod gwasanaethau/ gweithgareddau neu brosesau busnes lle y byddai unrhyw fethiant (e.e. o ran cyflenwyr offer, ayyb.) yn arwain at dorri ar draws busnes yn sylweddol
- Nodi'r bygythiadau posibl
- Asesu'r holl risgiau mewnol ac allanol
- Cyfrifo effaith y risgiau hynny
- Cynllunio i leihau tebygolrwydd neu leihau effaith risgiau/bygythiadau a nodir
- Ymarfer y cynllun a hyfforddi eich staff
- Archwilio'r canlyniadau ac adolygu'r cynllun yn rheolaidd

## Proses syml i'w dilyn...

1. **Deall eich busnes**
2. **Asesu'r risgiau**
3. **Paratoi eich cynllun**
4. **Profi eich cynllun**

## 1. Deall eich busnes

I ddatblygu cynllun parhad busnes, mae angen i chi fod â dealltwriaeth drylwyr o'ch busnes. Mae hyn yn cynnwys adnabod swyddogaethau hanfodol eich busnes, yr effaith pe bai amharu ar y swyddogaethau hynny a'r flaenoriaeth ar gyfer adfer y swyddogaethau hynny. Adwaenir y broses hon yn gyffredin fel dadansoddiad o'r effaith ar y busnes.

## 2. Asesu'r risgiau

Nesaf, bydd angen i chi adnabod rhestr o'r holl risgiau neu beryglon y gwyddys amdanynt a fydd o bosibl yn bygwth eich busnes. Trwy benderfynu ar y tebygolrwydd o'r perygl yn digwydd, ac wedyn gyfrifo'r effaith y byddai'r perygl hwnnw yn ei chael ar eich busnes, mae'n bosibl sgorio'r risgiau a fydd yn helpu i lywio'r hyn y bydd angen i chi ei wneud gyda nhw. Mae'r broses hon yn un o benderfynu ar faint o risg mae eich busnes yn fodlon ei derbyn, a chyfeirir ati yn aml fel eich 'chwant am risg'.

### Y dewisiadau yw...

**Derbyn y risg:** Mae'n bosibl y byddwch yn penderfynu eich bod yn fodlon 'byw gyda'r' risg, oherwydd mae'n bosibl y bydd y gost o weithredu unrhyw strategaethau i leihau risg yn gorbwyso'r buddion.

**Fel arall, mae'n bosibl y byddwch yn penderfynu...**

**Trin y risg:** Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno trin y risg, h.y. gweithredu i leihau'r effaith neu i leihau'r tebygolrwydd ('Lliniaru Posibl') oherwydd bod y risg yn rhy fawr i'ch busnes.

Nid yw'n bosibl lliniaru yn erbyn pob risg, dyna pam mae angen cynllun.

## 3. Paratoi eich cynllun

Ar ôl cwblhau'r prif ymarferion casglu gwybodaeth mae bellach yn amser datblygu cynllun gweithredu syml a fydd o bosibl yn briodol pan fydd argyfwng yn digwydd. Dylai'r cynllun hwn eich galluogi i barhau gyda phob un o'ch gwasanaethau blaenoriaeth a hefyd dylai gynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer mathau gwahanol o risg i'ch busnes.


## 4. Profi eich cynllun

Mae'n bwysig, pan fydd eich cynllun wedi'i ysgrifennu, eich bod yn profi'r gweithdrefnau rydych wedi eu rhoi ar waith. Cyn gallu rhoi cynllun ar brawf, mae angen i staff fod yn gyfarwydd â chynnwys y cynllun a'u rôl mewn ymateb ac adfer. Gellir gwneud hyn trwy ddarllen trwy'r cynllun gyda'ch gilydd a thrafod sut y byddech chi'n ei gymhwyso i senario ffug.

Pan fyddwch yn hyderus bod eich staff yn deall y cynllun a'u rhan ynddo, dylech roi'r cynllun ar brawf drwy ffugio sefyllfa; adwaenir hyn fel ymarfer argyfwng.

Mae'r Sefydliad Parhad Busnes wedi datblygu'r cylch oes canlynol...

- Deall eich busnes
- Strategaethau SPB
- Datblygu ymateb SPB
- Datblygu diwylliant SPB
- Ymarfer, cynnal a chadw ac archwilio



# Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael rhagor o fanylion am reoli argyfyngau yng Nghaerdydd…

EVAC Cardiff: http://www.evaccardiff.co.uk/

**Neu cysylltwch â ni**

Cyfeiriad: Uned Rheoli Argyfyngau Caerdydd
Ystafell 151
Neuadd y Ddinas
Caerdydd
CF10 3ND

E-bost: emergencymanagement@cardiff.gov.uk

Gwefan: http://www.cardiff.gov.uk/evaccardiff/

Ffôn: 02920 871838